## ATODLEN >2

### Cyfalaf sydd i'w ddiystyru

**9.** Unrhyw swm a ddiystyrid o dan baragraff 7(1) o Atodlen 10 i'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (ôl-ddyledion o daliadau penodedig), ond fel pe bai'r geiriau "Subject to sub-paragraph (2)" ar ddechrau'r is-baragraff hwnnw wedi eu hepgor a'r cyfeiriad ym mharagraff (a) o'r is-baragraff hwnnw at baragraffau 6, 8 neu 9 o Atodlen 9 i'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (incwm arall sydd i'w ddiystyru) yn gyfeiriad at baragraffau 7 i 10 o Atodlen 1 (symiau sydd i'w diystyru wrth gyfrifo incwm).